# EISTEDDFOD YR URDD BRO'R WENYNEN GWENT 2027

O ble ddaeth yr enw? | Where did the name come from?

**Mae Eisteddfod yr Urdd 2027 yn cael ei chynnal yng Nghasnewydd, ardal sy'n gysylltiedig ag Augusta Hall (1802 - 1896), Arglwyddes Llanofer, a'i henw barddol oedd 'Gwenynen Gwent'.**



Yn gymwynasgar iawn i'r Gymraeg yn yr ardal, roedd hi'n ffigwr hanesyddol bwysig yn Nyffryn Gwent. Hi oedd yn gyfrifol am ailsefydlu'r arfer o wisgo'r wisg Gymraeg a'i moderneiddio.

Treuliodd ei bywyd yn adfer yr iaith Gymraeg a thraddodiadau Gwerin Cymru yn ei hardal. Noddodd delynorion, cerddorion a beirdd. Adferodd y delyn deires, dawnsio a chanu gwerin, y wisg Gymreig, y Fari Lwyd, y Plygain, a mwy.



Er nad oes tystiolaeth i ddangos bod hi'n uniongyrchol gyfrifol am greu'r wisg genedlaethol Gymreig fel ei hadnabyddir heddiw, roedd ei gweithgarwch yn cael dylanwad ar ddechrau ffurfio’r syniad o wisg genedlaethol i Gymru.

Enillodd hi wobr gyntaf yn Eisteddfod Caerdydd yn 1834 am ei thraethawd ar bwysigrwydd cadw’r iaith Gymraeg a gwisg genedlaethol Cymru; cyhoeddwyd y traethawd yn 1836 yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Yn 1850, helpodd i sefydlu Y Gymraes, y cylchgrawn Cymraeg cyntaf i ferched. Cyhoeddodd lyfr coginio yn y Gymraeg, a chyllidodd brosiect geiriadur Cymraeg.



**Mae’r enw hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd y wenynen mewn natur a sut y mae'n allweddol i sicrhau twf a thyfiant ar gyfer cynnal byd natur o'n cwmpas.**

